Y Diweddaraf am Ailddatblygu
Canolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru, Llanberis

Mae First Hydro Company* yn ailddatblygu Canolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru ar hyn o bryd i greu ased modern ac atyniadol i dwristiaid a'r gymuned sydd â chyfleusterau sy'n fwy addas i anghenion defnyddwyr. Darllenwch fwy i glywed am hynt y gwaith.

Hynt y Gwaith a'r Budd Cymunedol

Yn ddiweddar, cafodd yr adeilad presennol ei wagio o'i holl ddodrefn ac offer - yn barod ar gyfer y gwaith sydd ar y gweill i ddymchwel rhan o'r adeilad. Rhoddwyd y dodrefn hyn i grwpiau cymunedol lleol gyda chymorth Antur Waunfawr; menter ddielw yng Ngwynedd a Môn sy'n cynnig gwaith a chyfleoedd hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu.

Ymhlith y rhai a fanteisiodd ar yr offer dros ben roedd:

- Neuadd Ogwen, menter gymdeithasol sy'n hyrwyddo prosiectau adfywio ar gyfer cymuned Dyffryn Ogwen
- Siop Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yng Nghaernarfon
- Cartref henoed Plas Pengwaith yn Llanberis
- Ropeworks, Llanberis sydd wedi cael y Wal Ddringo

Nid yw dyddiad cychwyn y gwaith ailddatblygu wedi'i gadarnhau eto, ond unwaith y byddwn wedi cytuno ar y ffordd ymlaen byddwn yn cyhoeddi'r manylion.

Teithiau'n ailgychwyn o'r Ganolfan Dros Dro i Ymwelwyr

O ddechrau Ebrill 2019, bydd y teithiau'n ailgychwyn, ac yn gadael o Ganolfan Dros Dro i Ymwelwyr. Bydd y Ganolfan hon yn sicrhau bod teithiau Gorsaf Bŵer Dinorwig, sy'n denu 35,000 o ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn, yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod ailddatblygu. Gan y bydd y cyfleusterau'n gyfyngedig yn yr adeilad dros dro, ni fydd siop na chyfleusterau caffi ar gael.

Ewch i wefan **electricmountain.co.uk** i gael y diweddaraf am y prosiect.

Get in Touch

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y prosiect ailddatblygu sy'n mynd rhagddo, neu i gael rhagor o wybodaeth am ddyddiad agor y Ganolfan Dros Dro i Ymwelwyr, cysylltwch â **communityhelp@electricmountain.co.uk.**

*Mae 75% o Gwmni First Hydro yn eiddo i ENGIE a 25% ohono yn eiddo i Brookfield Renewable.

Update on Redevelopment of
Electric Mountain Visitor Centre, Llanberis

First Hydro Company* is currently redeveloping the Electric Mountain Visitor Centre to create a modern, appealing tourist & community asset with facilities to better suit the needs of users. Find out more about how the works are progressing.

Progress of Works & Community Benefit

The existing building has recently been emptied of all furniture and equipment - ready for planned partial demolition to take place. These furnishings were donated to local community groups with the assistance of Antur Waunfawr; an Anglesey & Gwynedd based not-for-profit enterprise which provides employment and training opportunities for people with learning disabilities.

Some of the other beneficiaries of the equipment included:

- Neuadd Ogwen, a social enterprise which promotes regeneration projects for the Dyffryn Ogwen community
- The Wales Air Ambulance Charity Shop in Caernarfon
- Plas Pengwaith home for the elderly in Llanberis
- Ropeworks, Llanberis will be making good use of the Traverse Wall



The start date of the redevelopment work is not yet confirmed, however once the way forward is agreed we will communicate the details.

Tours recommencing from Termporary Visitor Centre

From early April 2019, tours will recommence, departing from a Temporary Visitor Centre. This Centre will ensure that Dinorwig Power Station tours, which attract 35,000 visitors to the area annually, will continue to operate during the redevelopment period. As facilities will be limited at the temporary building, neither a gift shop nor café facilities will be available.

Please refer to the **electricmountain.co.uk** website for ongoing project updates.

Get in Touch

To ask any questions you might have about the ongoing redevelopment project, or if you require more information on the opening of the Temporary Visitor Centre, please contact **communityhelp@electricmountain.co.uk.**

*First Hydro Company is 75% owned by ENGIE and 25% owned by Brookfield Renewable.